Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Llanarth
# Llanarth
# Ceredigion
# SA47 0NP

## Dyddiad yr arolygiad: Ebrill 2019

## gan

## Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

## Ynglŷn ag Ysgol Llanarth

Lleolir Ysgol Llanarth rhyw bedair milltir i'r de o Aberaeron yn Awdurdod Lleol Ceredigion ac mae'n gwasanaethu'r pentref a'r ardal wledig gyfagos. Ar hyn o bryd, mae 61 o ddisgyblion amser llawn yn yr ysgol. Addysgir y disgyblion mewn tri dosbarth, oed cymysg.

Ar gyfartaledd, dros dreigl tair blynedd, mae tua 29% o'r disgyblion yn gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim. Mae hyn yn uwch na'r ganran genedlaethol, sy'n 18%. Ychydig o'r disgyblion sy'n siarad Cymraeg gartref. Mae'r ysgol wedi adnabod oddeutu 44% o'i disgyblion fel rhai sydd ag anghenion dysgu ychwanegol, sy'n sylweddol uwch na'r ganran genedlaethol (21%).

Arolygwyd yr ysgol ddiwethaf ym mis Tachwedd 2012 a chychwynnodd y pennaeth yn ei swydd ym mis Medi 2016.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol, yn y ddolen isod.
http://mylocalschool.wales.gov.uk/index.html?iath=cym

## Crynodeb

Mae cymuned yr ysgol yn un deuluol a chynhwysol sy'n darparu addysg, gofal a chymorth effeithiol i'w disgyblion. Yn ystod eu cyfnod yno, mae rhan fwyaf y disgyblion yn gwneud cynnydd cadarn o'u mannau cychwyn ac yn cyflawni'n dda. Mae bron pob un o'r disgyblion yn dangos brwdfrydedd at eu gwaith ac maent yn ymddwyn yn gwrtais at ei gilydd ac ymwelwyr fel ei gilydd.

Mae'r berthynas waith effeithiol sy'n bodoli rhwng y staff a'r disgyblion yn nodwedd arbennig o waith yr ysgol. Mae hyn yn cyfrannu'n gadarn at greu amgylchedd ddysgu lwyddiannus. Darperir gweithgareddau ysgogol, cyfoethog, diddorol a chreadigol i'r disgyblion sy'n eu datblygu'n ddysgwyr hyderus ac sy'n hyrwyddo'r celfyddydau Cymreig a datblygu parch y disgyblion at eu cymuned leol. Mae'r disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol yn derbyn gofal a chynhaliaeth effeithiol gan y staff.

Mae'r pennaeth, y staff a'r llywodraethwyr yn cydweithio'n effeithiol i sicrhau bod disgyblion yn derbyn addysg sy'n gadarn dda.

| **Maes arolygu** | **Barn** |
|---|---|
| **Safonau** | **Da** |
| **Lles ac agweddau at ddysgu** | **Da** |
| **Addysgu a phrofiadau dysgu** | **Da** |
| **Gofal, cymorth ac arweiniad** | **Da** |
| **Arweinyddiaeth a rheolaeth** | **Da** |

## Argymhellion

A1 Sicrhau bod yr addysgu'n ymateb yn llawn i anghenion disgyblion o bob gallu

A2 Mireinio gweithdrefnau monitro i sicrhau bod arweinwyr yn mynd i'r afael â'r holl feysydd sydd angen eu gwella

A3 Sicrhau bod mwy o gyfleoedd i ddisgyblion wneud dewisiadau am eu dysgu er mwyn eu datblygu'n ddysgwyr annibynnol

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad.

## Prif ganfyddiadau

**Safonau: Da**

Wrth iddynt gychwyn yn yr ysgol, mae gan lawer o ddisgyblion fedrau llythrennedd, rhifedd a chymdeithasol islaw'r hyn sy'n ddisgwyliedig ar gyfer eu hoed. Yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol, fodd bynnag, mae'r rhan fwyaf, gan gynnwys y rheini sydd ag anghenion dysgu ychwanegol, yn gwneud cynnydd cadarn o'u mannau cychwyn.

Er bod llawer o ddisgyblion y dosbarth derbyn yn cyrraedd yr ysgol gydag ychydig iawn o Gymraeg, maent yn caffael yr iaith yn fuan. Ar draws y cyfnod sylfaen, mae llawer o ddisgyblion yn gwrando ar, ac yn ymateb i, gyfarwyddiadau oedolion yn dda. Erbyn diwedd Blwyddyn 2, mae llawer o ddisgyblion yn sgwrsio'n hyderus mewn amrywiaeth o sefyllfaoedd, er enghraifft wrth drafod sut i ysgrifennu cyfarwyddiadau ar gyfer helfa drysor y Pasg. Yn y cyfnod sylfaen, mae rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd da yn eu darllen ac maent yn gwrando'n ofalus ac yn ymateb yn synhwyrol i wahanol storïau. Mae iaith lafar y disgyblion yn datblygu'n gadarn yng nghyfnod allweddol 2, ac erbyn iddynt gyrraedd Blwyddyn 6, mae'r rhan fwyaf yn cyfrannu'n glir a phwrpasol mewn trafodaethau dosbarth yn y ddwy iaith. Mae rhan fwyaf o ddisgyblion cyfnod allweddol 2 yn gwneud cynnydd cadarn yn eu darllen yn y Gymraeg a Saesneg. Maent yn trafod prif ddigwyddiadau a chymeriadau o'u llyfrau yn wybodus gan fynegi barn am eu hoff lyfrau ac awduron. Maent yn defnyddio uwch fedrau darllen yn dda, er enghraifft i ganfod gwybodaeth am wahanol fedalau'r Ail Ryfel Byd.

Mae medrau ysgrifennu cynnar llawer o ddisgyblion y cyfnod sylfaen yn datblygu'n dda. Maent yn ffurfio llythrennau yn gywir ac yn dechrau ysgrifennu brawddegau syml i gyfleu ystyr. Erbyn diwedd y cyfnod, mae llawer ohonynt yn datblygu eu syniadau'n synhwyrol yn unol â'u hoed a'u gallu, gyda'r lleiafrif o ddisgyblion sy'n fwy abl yn amrywio'u brawddegau ac yn defnyddio ansoddeiriau i gyfoethogi eu gwaith. Mae enghraifft dda o hyn yn cynnwys ailadrodd stori'r Ddafad Golledig yn ysgrifenedig. Yng nghyfnod allweddol 2, mae medrau ysgrifennu llawer o ddisgyblion yn datblygu'n dda. Maent yn ysgrifennu'n gywir mewn ystod eang o ffurfiau yn y ddwy iaith, gan ddangos gafael priodol ar ffurf ac atalnodi. Er enghraifft, maent wedi ysgrifennu bywgraffiadur yn seiliedig ar Neil Armstrong yn Saesneg ac adroddiad yn dilyn eu hymweliad â Llanerchaeron yn y Gymraeg. Mae llawer o'r disgyblion yn datblygu eu medrau dwyieithrwydd yn effeithiol ac maent yn hyderus i gymhwyso eu medrau llythrennedd mewn amrywiaeth o wahanol gyd-destunau.

Yn y cyfnod sylfaen, mae'r rhan fwyaf yn datblygu'u medrau rhif yn effeithiol mewn ystod addas o weithgareddau. Maent yn cymhwyso'u medrau yn llwyddiannus ar draws y meysydd dysgu, er enghraifft i gyfrifo cost gwneud diod hudol i Wini'r wrach. Mae gan lawer o ddisgyblion cyfnod allweddol 2 ddealltwriaeth gadarn o strategaethau rhif, cyfaint, mesur a ffracsiynau. Mae ganddynt ymwybyddiaeth dda o ddata ac maent yn dadansoddi a dehongli data'n hyderus, er enghraifft wrth gasglu gwybodaeth a llunio graff sy'n cymharu glawiad a thymheredd mewn gwledydd ar draws y byd. Mae rhan fwyaf yn cymhwyso'u medrau rhifedd yn dda wrth ddatrys problemau mewn gwersi mathemateg ac ar draws y cwricwlwm. Er enghraifft, mae disgyblion Blwyddyn 6 yn cyfrifo cost ac elw a wneir o werthu cacennau mewn bore coffi i godi arian at elusen cancr, tra bod eu cyfoedion ym Mlwyddyn 3 a 4 yn cymharu prisiau nwyddau masnach deg.

Mae medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) y rhan fwyaf o'r disgyblion ar draws yr ysgol yn datblygu'n dda. Yn y cyfnod sylfaen, er enghraifft, mae'r rhan fwyaf yn rhoi cyfarwyddiadau syml i degan er mwyn ei symud o amgylch llwybr i chwilio am wahanol anifeiliaid ar y fferm. Datblygir y medrau hyn ymhellach yng nghyfnod allweddol 2. Erbyn Blwyddyn 6, mae'r rhan fwyaf yn creu cyflwyniadau amlgyfrwng yn hyderus, er enghraifft i gyfleu gwybodaeth am yr Aifft fel rhan o'u gwaith thema ac yn defnyddio taenlenni'n hyderus i gofnodi a chyfrifo data cystadleuaeth rygbi'r chwe gwlad.

### Lles ac agweddau at ddysgu: Da

Mae bron pob disgybl yn mwynhau bywyd a gwaith yr ysgol ac maent yn teimlo'n ddiogel o fewn yr ethos gofalgar, cynhwysol a chynhaliol sy'n bodoli ynddi. Maent yn hapus i drafod unrhyw bryderon gydag aelodau staff, ac maent yn hyderus eu bod yn gwrando arnynt ac yn rhoi cyngor da iddynt. Mae bron pob disgybl yn ymwybodol o bwysigrwydd mynychu'r ysgol yn rheolaidd a chaiff hyn ei adlewyrchu'n glir yn eu presenoldeb da a chyson.

Mae disgyblion yn gwerthfawrogi'r ffaith bod datblygu eu lles yn ganolog i holl waith yr ysgol a bod y staff yn rhoi blaenoriaeth amlwg i ddarparu gofal a chefnogaeth iddynt. Mae gan ran fwyaf y disgyblion ddealltwriaeth gadarn o'r hyn sydd angen ei wneud i gadw'n iach ac maent yn gwneud dewisiadau doeth o ran bwyd a diod. Maent yn deall pwysigrwydd ymarfer y corff yn rheolaidd ac mae llawer ohonynt yn cymryd rhan mewn gweithgarwch 'Ffit mewn 5' sy'n cyfrannu'n dda at eu lles a'u ffitrwydd. Mae bron pob disgybl yn deall pwysigrwydd cadw'n ddiogel ar y rhyngrwyd.

Mae gan ran fwyaf o ddisgyblion berthynas waith effeithiol gyda'r staff ac maent yn dangos parch a chwrteisi tuag at eu cyfoedion ac ymwelwyr fel ei gilydd. Mae rhan fwyaf y disgyblion yn ymddwyn yn dda yn eu dosbarthiadau ac o gwmpas yr ysgol. Maent yn ystyriol ac yn uniaethu'n dda â'i gilydd yn ystod gwersi, ac yn cydweithio'n effeithiol mewn parau a grwpiau bach. Mae'r rhan fwyaf yn dangos agweddau cadarnhaol tuag at ddysgu ac maent yn barod i weithio'n brydlon ar gychwyn gwersi. Mae llawer o'r disgyblion yn mwynhau eu gweithgareddau ac yn ymfalchïo yn eu gwaith, gan ddyfalbarhau am gyfnodau estynedig. Fodd bynnag, nid yw eu rôl wrth arwain eu dysgu eu hunain, i wneud penderfyniadau nac i fod yn ddysgwyr annibynnol wedi datblygu'n llawn.

Mae llawer o'r disgyblion yn cyfrannu'n briodol at waith yr ysgol trwy weithredu ar amryw gynghorau fel y cyngor ysgol, y pwyllgor arweinwyr digidol a'r pwyllgor eco rhyngwladol. O ganlyniad, mae rhan fwyaf y disgyblion yn datblygu'n dda fel dinasyddion moesegol a gwybodus. Mae ganddynt ddealltwriaeth gadarn o bwysigrwydd cynrychioli eu cyfoedion a'u haddysgu am beryglon y rhyngrwyd ac am edrych ar ôl eu hamgylchedd fel lleihau'r defnydd o blastig a monitro'r defnydd o ynni yn y dosbarthiadau er mwyn gwneud arbedion. Mae'r disgyblion yn cefnogi elusennau lleol a chenedlaethol yn llwyddiannus trwy amrywiaeth o weithgareddau codi arian. Mae hyn yn datblygu eu hymwybyddiaeth o anghenion eraill yn effeithiol.

### Addysgu a phrofiadau dysgu: Da

Ar draws yr ysgol, mae'r berthynas waith gynhaliol sy'n bodoli rhwng y staff a'r disgyblion yn cefnogi'r dysgu yn gadarn. Mae staff yn creu awyrgylch gynhyrchiol

sy'n annog y disgyblion i wneud cynnydd cyson yn eu gweithgareddau. Mae'r ysgol yn cynllunio ystod eang o brofiadau dysgu diddorol ac ymarferol sy'n ennyn diddordeb y rhan fwyaf o'r disgyblion yn llwyddiannus. Mae'r athrawon yn modelu iaith yn dda. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar ddatblygiad ieithyddol y disgyblion. Mae'r staff yn holi'n fedrus er mwyn ehangu dealltwriaeth y disgyblion. Fodd bynnag, ar adegau, mae athrawon yn arwain gormod ar y gweithgareddau, sy'n cyfyngu ar allu'r disgyblion i gynnig syniadau ar yr hyn y maent am ei ddysgu a datblygu'n ddysgwyr annibynnol.

Mae gan staff ymwybyddiaeth gadarn o egwyddorion y cyfnod sylfaen. Maent yn darparu profiadau diddorol i'r disgyblion sy'n datblygu eu medrau meddwl a creadigol yn effeithiol ar draws yr ardaloedd dysgu. Gwneir defnydd pwrpasol o'r ardaloedd dysgu allanol i gyfoethogi'r ddarpariaeth, gyda'r disgyblion yn cynllunio, mesur a chreu cartref i gwningen y Pasg yn yr ardal adeiladu, er enghraifft.

Mae'r athrawon yn adnabod y disgyblion yn dda ac mae eu hasesiadau'n gywir ac yn ddibynadwy. Mae hyn yn gymorth iddynt gynllunio camau dysgu nesaf y disgyblion. Yn gyffredinol, mae athrawon yn cynnig sylwadau llafar ac ysgrifenedig priodol i ddisgyblion er mwyn cynnig iddynt y ffordd ymlaen ar sut i wella'u gwaith. Fodd bynnag, ar adegau, nid yw'r tasgau bob tro'n ymateb yn llawn i anghenion pob disgybl, yn enwedig y rhai mwy abl.

Caiff medrau llythrennedd a rhifedd y disgyblion eu datblygu'n bwrpasol trwy brofiadau dysgu cyfoethog a chreadigol. Ar y cyfan, mae athrawon yn sicrhau bod cynlluniau ar gyfer datblygu'r medrau hyn yn adeiladu'n systematig ar y rhai y maent eisoes wedi eu caffael. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer TGCh yn gadarn ac mae'r athrawon wedi ymgorffori disgwyliadau'r fframwaith cymhwysedd digidol yn bwrpasol ar draws y meysydd dysgu a'r cwricwlwm. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar safonau TGCh y rhan fwyaf o ddisgyblion ar draws yr ysgol.

Mae hanes a diwylliant Cymru wedi gwreiddio'n ddwfn yng nghynlluniau'r ysgol. Trwy'r nifer o weithgareddau Cymreig cyfoethog a ddarperir iddynt, mae disgyblion yn dangos balchder at yr iaith a'u diwylliant. Rhoddir pwyslais amlwg ar weithgareddau yn y gymuned leol, sy'n meithrin ymwybyddiaeth y disgyblion o'u diwylliant lleol yn hynod lwyddiannus. Enghraifft nodedig o hyn yw'r cydweithio effeithiol sy'n bodoli gyda theatr Felinfach sy'n rhoi cyfle i ddisgyblion ddatblygu eu medrau llythrennedd a chreadigol yn llwyddiannus.

## Gofal, cymorth ac arweiniad: Da

Mae cymuned yr ysgol yn un deuluol a chynhwysol sy'n darparu gofal a chymorth effeithiol i'w disgyblion. Mae hyn yn nodwedd gref o'i gwaith a'i bywyd. Mae staff yn annog y disgyblion yn gyson i ddangos balchder yn eu hysgol a'u cymuned leol. Mae'r ysgol yn weithgar iawn yn y pentref a'r gymuned ehangach ac yn darparu cyfleoedd gwerthfawr i'w disgyblion berfformio i wahanol gynulleidfaoedd yn rheolaidd yn y capel a'r eglwys. O ganlyniad, mae'r disgyblion yn datblygu ymdeimlad cryf o berthyn i'w cymuned.

Mae gan yr ysgol drefniadau priodol ar gyfer bwyta ac yfed yn iach ac mae'n hyrwyddo dealltwriaeth y disgyblion o bwysigrwydd gwneud ymarfer y corff yn rheolaidd yn effeithiol. Atgyfnerthir hyn yn llwyddiannus gan aelodau'r cyngor iach a'r

llysgenhadon ifanc sy'n hyrwyddo hyn yn gyson ymhlith eu cyfoedion. Mae'r ysgol yn darparu cyfleoedd eang i ddisgyblion ysgwyddo cyfrifoldebau trwy ymgymryd â rolau gwahanol o fewn y cynghorau. O ganlyniad, mae ganddynt ddealltwriaeth gynyddol o bwysigrwydd cynrychioli eu cyfoedion a datblygu'n ddinasyddion cyfrifol y dyfodol. Mae'r ysgol yn datblygu dealltwriaeth y disgyblion o Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn yn drwyadl. Atgyfnerthir yr hawliau hyn yn aml mewn gwasanaethau cyd-addoli, mewn gwersi ac mewn arddangosfeydd o amgylch yr ysgol. Mae hyn yn galluogi'r disgyblion i ddeall eu hawliau ar sut i fod yn ddinasyddion da, teg a chyfiawn. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer addysg bersonol a chymdeithasol yn dda ac yn sicrhau bod disgyblion yn datblygu dealltwriaeth dda o arferion ymddygiad da. Mae'r ysgol yn hyrwyddo datblygiad ysbrydol a moesol disgyblion yn effeithiol trwy wasanaethau cyd-addoli rheolaidd a thrwy wersi addysg grefyddol. Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

Mae gan yr athrawon berthynas gynhyrchiol gyda rhieni ac maent yn rhannu gwybodaeth ddefnyddiol gyda nhw ynglŷn â sut y gallent gefnogi addysg eu plant. Er enghraifft, mae'r ysgol yn cynnal nosweithiau rhieni a gweithdai gwerthfawr er mwyn gwella dealltwriaeth y rhieni o strategaethau darllen ac agweddau o TGCh. Yn ddiweddar, mae'r pennaeth wedi cyflwyno dull cyfathrebu newydd yn yr ysgol sy'n sicrhau bod gwybodaeth amserol yn cael ei rhannu gyda rhieni.

Mae gan yr ysgol systemau olrhain cynnydd disgyblion effeithiol. Maent yn defnyddio'r wybodaeth yn bwrpasol i alluogi athrawon i adnabod anghenion disgyblion a darparu cymorth amserol ac addas ar eu cyfer.

Mae gweithdrefnau'r ysgol ar gyfer disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol yn dda. Mae athrawon yn adnabod anghenion addysgol, emosiynol a chymdeithasol y disgyblion yn gynnar ac yn creu ac adolygu cynlluniau addysg unigol yn systematig. Mae'r cynorthwywyr yn gweithio'n fedrus o dan arweiniad y cydlynydd anghenion dysgu ychwanegol i weithredu ystod eang o raglenni ymyrraeth pwrpasol i'r disgyblion sydd eu hangen. Mae'r rhaglenni hyn yn sicrhau bod y rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd da o'u man cychwyn. Mae'r ysgol yn gweithio'n effeithiol gydag asiantaethau allanol i sicrhau bod disgyblion yn derbyn y gefnogaeth maent ei hangen. O ganlyniad, mae'r disgyblion hyn yn gwneud cynnydd cadarn.

**Arweinyddiaeth a rheolaeth: Da**

Mae gan y pennaeth weledigaeth glir ar gyfer datblygu'r ysgol, sy'n seiliedig ar sicrhau lles a chodi safonau pob disgybl. Mae'n rhannu'r weledigaeth yn llwyddiannus gyda'r staff, y rheini a'r llywodraethwyr. Mae'r gwaith tîm sy'n bodoli yn yr ysgol yn gryfder ac yn sicrhau bod pob un yn cyfrannu'n effeithiol at wireddu gweledigaeth y pennaeth. O ganlyniad, mae'r ysgol yn gymuned hapus, gartrefol a chynhwysol, sy'n sicrhau lles y disgyblion ac yn cynnig profiadau dysgu diddorol ac ysgogol i iddynt.

Mae trefniadau hunanwerthuso'r ysgol yn seiliedig ar ystod eang o dystiolaeth uniongyrchol. O ganlyniad, mae gan yr arweinwyr ddealltwriaeth glir o gryfderau'r ysgol a'r rhan fwyaf o'r meysydd sydd angen eu gwella. Mae deilliannau'r gweithdrefnau hunanwerthuso yn cyfrannu'n uniongyrchol at flaenoriaethau gwella

priodol. Mae'r arweinwyr yn monitro'r cynnydd yn ofalus ac yn rheolaidd er mwyn sicrhau gwelliannau. Mae'r disgyblion a'r rhieni yn cyfrannu'n briodol at y gweithdrefnau hunanwerthuso ac mae'r ysgol yn ymateb yn dda i'w syniadau. Enghraifft lwyddiannus o hyn yw'r gweithdai llythrennedd ar gyfer y rhieni. Mae'r rhain wedi cael effaith gadarnhaol iawn ar safonau darllen y disgyblion.

Mae'r ysgol wedi cyflwyno nifer o strategaethau cadarn i ddatblygu'r ysgol yn fwy effeithiol, sy'n cynnwys dosrannu cyfrifoldebau arwain i'r athrawon. O ganlyniad, mae gan yr athrawon ddealltwriaeth gynyddol o'u rôl fel arweinwyr wrth sicrhau gwelliant parhaus ac maent yn cyflawni eu dyletswyddau yn gydwybodol. Maent wedi dechrau monitro ansawdd y ddarpariaeth a safonau'r disgyblion yn rheolaidd. Fodd bynnag, nid yw eu trefniadau monitro presennol wedi aeddfedu digon i'w galluogi i adnabod ychydig ddiffygion mewn meysydd penodol yn y ddarpariaeth na'u galluogi i gymryd camau digon buan i ymateb iddynt.

Mae'r ysgol yn datblygu i fod yn gymuned ddysgu effeithiol. Mae'r staff yn rhannu arfer dda o fewn yr ysgol yn rheolaidd, ac mae hyn yn gwella eu medrau yn llwyddiannus. Enghraifft fuddiol o hyn yw'r modd medrus y mae pob aelod o'r staff yn datblygu medrau TGCh y disgyblion. O ganlyniad, mae'r disgyblion yn gwneud cynnydd cadarn yn eu dysgu. Mae'r trefniadau rheoli perfformiad yn cefnogi anghenion dysgu proffesiynol y staff yn llwyddiannus. Mae'r ysgol yn gweithio'n fwriadus gydag ysgolion lleol i rannu arfer dda. Enghraifft lwyddiannus o hyn yw'r cydweithio effeithiol sy'n bodoli i wella ansawdd y ddarpariaeth ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol.

Mae'r llywodraethwyr yn hynod gefnogol i'r ysgol ac yn adnabod ei chymuned yn dda. Maent yn chwarae rhan lawn yng ngweithdrefnau gwerthuso'r ysgol ac yn cydweithio'n llwyddiannus gyda'r pennaeth i osod targedau heriol er mwyn sicrhau gwelliannau parhaus. Mae ganddynt ddealltwriaeth gadarn o ran fwyaf o gryfderau a gwendidau'r ysgol ac yn cyflawni eu rôl fel ffrindiau beirniadol yn effeithiol.

Mae gan yr ysgol amrediad da iawn o adnoddau a chânt eu defnyddio'n effeithiol i gyfoethogi profiadau dysgu'r disgyblion. Mae'r pennaeth a'r llywodraethwyr yn rheoli cyllid yn ofalus, gyda'r penderfyniadau gwariant yn cyd-fynd yn glir â blaenoriaethau gwella'r ysgol. Mae'r ysgol yn defnyddio'r grant datblygu disgyblion yn ddarbodus i sicrhau lles a chodi safonau darllen a rhifedd y disgyblion sy'n gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim.

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Mae Estyn yn arfarnu effeithiolrwydd darparwr gan ddefnyddio graddfa bedwar pwynt ar gyfer barnau:

| | |
|---|---|
| **Rhagorol** | Perfformiad ac arferion cryf iawn, cynaledig |
| **Da** | Nodweddion cryf, er y gall fod angen gwella mân agweddau |
| **Digonol ac angen gwelliant** | Cryfderau'n gorbwyso gwendidau, ond agweddau pwysig y mae angen eu gwella |
| **Anfoddhaol ac angen gwelliant ar frys** | Gwendidau pwysig yn gorbwyso cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2019: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 14/06/2019